


A DOLYGIADAU

Smyglwyr Cymru, Twm Elias a Dafydd Meirion, Gwasg Carreg Gwalch 147 tud., pris £12.50



Dyma'r tro cyntaf i stori smyglwyr Cymru gael ei chyflwyno yn ei chryswth - ac mae'n stori eithriadol o gyffrous sy'n taflu goleuni newydd, rhyfeddol, ar agwedd o'n hanes a gafodd ei esgeuluso hyd yn hyn.

Rydym yn hen gyfarwydd â'r hanes am smyglwyr yn ystod y ddeunawfed ganrif yn dadlwytho brandi, tybaco a halen yn anghyfreithlon liw nos mewn cilfachau diarffordd ar hyd arfordir Cymru. Dwi'n cofio cael fy nghyfareddu â llyfrau megis Rhwng Rhyfeloedd E. M. Humphreys, Helynt Coed y Gell, Madam Wen, nofel enwog W. D. Owen yr oedd yr athro yn ei darllen inni bob pnaun dydd Gwener yn Nhalysarn. Wedyn, cafodd fy mhlant innau, yn eu tro, eu cyffroi gan nofelau T. Llew Jones.

Gyda bron tri chwarter ffiniau Cymru yn arfordir - oddeutu chwe chan milltir, does ryfedd fod straeon am smyglwyr yn gyffredin ym mhobman Eto, ychydig iawn o sylw gafodd stori'r smyglwyr gan haneswyr Cymreig.

Daw'r gair 'smyglo' o'r Saesneg, ond yn wreiddiol daw o ieithoedd Llychlyn. O'r D d a n e g , s m u g - h a n d l e - n w y d d a u anghyfreithlon, Swedeg, smuga - lle i lechu, ac yn iaith Gwlad yr Ia, smugu - twll i gropian drwyddo.

Ceir llawer o wybodaeth hynod ddifyr yn y gyfrol, megis pwy oedd y smyglwyr, cefnogaeth leol iddynt, pam smyglo, y

cwmniau smyglo, a rhan Morrisiaid Mon yn hyn i gyd. Roedd Ynys Wair yn aber Hafren yn lle pwysig iawn ar gyfer smyglo. Dywed casglwr trethi Caerdydd yn y ddeunawfed ganrif "never there lived yet a man on the island of Lundy who was not connected with smuggling". Roedd pob sir ar y arfordir wrthi hefyd. Ond ceid cosb enbyd i'r rhai a ddaliwyd gan yr awdurdodau.

Mae'r llyfryn yn werth ei darllen ac fe ddylai fod wrth eich penelin pan ar eich gwyliau yr haf yma.


Llyfrau Llafar Gwlad

Chwareli Dyffryn Nantlle, Dewi Tomos, Gwasg Carreg Gwalch 116 tud., pris £7.50

Imi, yn frodor o Ddyffryn Nantlle, peth am heuthun iawn oedd pori drwy'r gyfrol hynod ddiddorol hon. Mae'r wybodaeth sydd rhwng ei chloriau wedi dangos ôl ymchwil, a da yw cael cyfrol fodern y gellir troi ati i atgyfnerthu'r cof, neu i gyflwyno holl ffordd o fyw sydd wedi hen ddiplannu bellach i'r rhai sydd ddim yn gyfarwydd â'r bri fu yn y dyffryn.

Ceir ystod eang o destunau'n cael eu trafod, gan gychwyn gyda Daeareg y dyffryn, dibenion y llechfaen, Hanes y Chwareli a'r modd y'u datblygwyd hwy; cawn olwg ar brysurdeb mewn dyffryn diwydiannol wrth i'r chwareli llechi gael eu datblygu, cawn flas ar y bywyd cymdeithasol, y bywyd caled a pheryglus, a'r trychinebau lu.

Fy hen daid, Owain Roberts neu Wan fawr fel y'i adnabyddid, oedd yn gyfrifol am weithio'r peiriant trawst. Dwi a chof plentyn




bach iawn mynd gydag ef i'r injan fawr, wedi iddo ymddeol. Roedd yn ail wir i'm nain.

Collwyd cyfle yn y llyfr i gyfeirio at ddatblygiad y ddrama yn y dyffryn. O gychwyn y ganrif ddiwethaf, bu Frederick Davies yn datblygu'r Gymdeithas Drama ac yn awdur, a'i fab, William John Davies, yn ddiweddarach yn ei hymestyn. Ysgrifennai ei ddramau yn yr Herald Gymraeg ac yn eu pastio ar lyfr, er mwyn i'w gymeriadau cael copi cyflawn ar gyfer yr ymarferiadau. Un arall a ysgrifennai opera ac a gyfansoddodd y gerddoriaeth oedd W. T. Williams, Onllwyn, Talysarn. Gwelais sawl un o'i gynhyrchiadau yn cael eu llwyfannu yn y Neuadd Goffa Penygroes.

Dylai'r gyfrol hon fod yn eiddo i bawb sydd â chysylltiad â'r Dyffryn ac yn gyfrol y gellir troi ati yn gyson.

Prynwch hi a mwynhewch ei darllen.

Y Gemydd, Caryl Lewis, Y Lolfa, 192 tud., pris £7.95



Hon yw trydedd nofel Caryl Lewis, y ferch ifanc o Geredigion. Cafodd hi lwyddiant mawr â'i hail nofel, Martha, Jac a Sianco, a enillodd iddi wob Llyfr y Flwyddyn 2005. Mae hi, hefyd, wedi ennill gwobr Tir na n -og am ei nofel i blant, Boi; mae hyn yn dipyn o gamp i ferch sydd ond yn 28 oed.

Stori yw hon am ddynes o'r enw Mair, sy'n byw mewn bwthyn bach ger yr arfordir. Yn rhyfeddol iawn i mi, mae ei bywyd hi'n troi o gwmpas mwnci o'r enw Nanw, sy'n cael ei chadw mewn cawell yn y llofft - mae hi'n